RHONDDA CYNON TAF

At sylw: Penaethiaid yr Ysgolion Cynradd


Gofynnwch am: / Please Ask For: Lisa Kidner
Rhif Ffôn: / Telephone Nº:
Ffacs: / Fax:
E-bost: / E-Mail:
Cylchlythyr: / Circular:


Fy Nghyf: / My Ref: LK

Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad: / Date: 12 Rhagfyr 2022

Annwyl Bennaeth,

**Cyflwyno Prydau Ysgol Gynradd am Ddim yn raddol**

Ym mis Medi 2022, dechreuodd y broses o gyflwyno Prydau Ysgol Gynradd am Ddim ar draws Cymru, gan gychwyn gyda disgyblion dosbarth Derbyn. Mae'r polisi'n rhan o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, fydd yn gweld prydau ysgol am ddim yn cael eu hymestyn i bob disgybl ysgol gynradd dros y ddwy flynedd nesaf.

Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus prydau ysgol gynradd am ddim i ddisgyblion oedran y Derbyn yn Rhondda Cynon Taf, bydd y cam nesaf yn dechrau 1 Ionawr 2023 ymlaen, lle bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys pob disgybl ym Mlwyddyn 1 a disgyblion Meithrin cymwys.

Disgyblion Meithrin Cymwys yw'r rheiny sy'n mynychu darpariaeth Meithrin yr awdurdod lleol ar sail llawn amser (sesiynau bore a phrynhawn) yn unol â pholisi derbyn y Cyngor: -

- Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022, yn gymwys ar gyfer pryd ysgol am ddim o fis Ionawr 2023 ymlaen.

- Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023, yn gymwys ar gyfer pryd ysgol am ddim o fis Ebrill 2023 ymlaen.

- Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Awst 2023, yn gymwys ar gyfer pryd ysgol am ddim o fis Medi 2023 ymlaen.




Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

* Er mwyn cynorthwyo eich dealltwriaeth o'n meini prawf derbyn Meithrin llawn amser, mae darn o lyfryn 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor wedi cael ei ddarparu isod; mae hyn yn nodi'r trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion Meithrin.

**NODWCH: Mae rhai ysgolion yn cynnig, ac yn ariannu lleoedd Meithrin yn uniongyrchol o gyllid eu hysgol eu hunain; yn yr achos yma, dyw disgyblion ddim yn gymwys i dderbyn prydau ysgol gynradd am ddim.**

**(Darn o 'Llyfryn Dechrau'r Ysgol 2022-2023')**

## 2.1: Addysg Cyn-feithrin / Meithrin

Mae'r Cyngor yn adolygu ei weithdrefnau derbyn disgyblion ar gyfer addysg cyn-feithrin a meithrin anstatudol yn barhaus ac mae'n cadw'r hawl i'w diwygio.

### 2.1.1 Addysg Cyn-feithrin

Mae addysg cyn-feithrin ran-amser ar gael i blant yn y tymor ar ôl eu pen-blwyddi'n 3 oed. Bydd modd i rieni gyflwyno cais ar-lein ym mis Medi am le cyn-feithrin sy'n dechrau ym mis Ionawr (y tymor ar ôl i'w plentyn droi'n 3 oed), ac ym mis Ionawr ar gyfer mis Ebrill yn yr un modd.

### 2.1.2 Addysg Feithrin

Mae Addysg Feithrin ran-amser ar gael o fis Medi'r flwyddyn academaidd mae'r plentyn yn troi'n 4 oed. Mae llefydd amser llawn yn cael eu darparu ar gyfer plant sydd wedi cael eu pen-blwyddi'n 4 oed.

O fewn Rhondda Cynon Taf, bydd y Cyngor yn cyflwyno'r cynnig prydau ysgol gynradd am ddim fel a ganlyn:-

- O 5 Medi 2022 ymlaen, bydd pob disgybl oedran y Derbyn wedi cael cynnig prydau ysgol gynradd am ddim.
- O fis Ionawr 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion Blwyddyn 1.
- O fis Ionawr 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion y Meithrin, sydd yn gymwys.
- O fis Ebrill 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blwyddyn 2.
- O fis Medi 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4.
- O fis Ebrill 2024, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6.

Byddwn i'n ddiolchgar pe baech chi'n rhannu'r llythyr yma gyda rhieni/gwarcheidwaid a'ch Corff Llywodraethu.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â chynnwys y llythyr yma, e-bostiwch gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk

Yn gywir,

**Lisa Kidner**
**Rheolwr Busnes, Gwasanaethau Arlwyo**